Atodiad A

Cyflwyno ac egluro'r her (Medi - Rhagfyr 2015)

Be	Manylion
Newyddion Gwynedd	Cyhoeddwyd cyfres o erthyglau yn Newyddion Gwynedd oedd yn egluro'r cyd-destun ariannol a'r ffyrdd y gallai trigolion Gwynedd gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus
Datganiadau i'r wasg	Rhyddhawyd cyfres o ddatganiadau i'r wasg yn egluro'r cyd-destun ariannol a'r ffyrdd y gallai trigolion Gwynedd gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus
Gwefan y Cyngor	Cyhoeddwyd cyfres o dudalennau perthnasol a oedd yn cynnwys: • Cyflwyniad gan Brif Weithredwr y Cyngor ar ffurf fideo • Fideo ar "Sut i lenwi'r holiadur" • Fersiwn electroneg o'r ddogfen ymgynghori • Holiadur ar-lein pwrpasol • Manylion a lleoliadau'r fforymau cyhoeddus a'r sesiynau galw heibio ynghyd â ffurflen gofrestru i fynychwyr
Llawlyfr	Cynhyrchwyd a dosbarthwyd llawlyfr pwrpasol a oedd yn cyflwyno'r cyd-destun ac yn cynnwys fersiwn papur o'r holiadur ac amlen rhadbost i'w ddychwelyd
Twitter	Cyhoeddwyd dros 200 o negeseuon yn hyrwyddo'r ymarferiad
Facebook	Cyhoeddwyd dros 200 o negeseuon yn hyrwyddo'r ymarferiad
Posteri a thaflenni	Dosbarthwyd posteri a thaflenni a oedd yn hyrwyddo'r fforymau cyhoeddus a'r sesiynau galw heibio ynghyd a gwefan y Cyngor
Pecyn Cynghorwyr	Cynhyrchwyd a dosbarthwyd pecyn o ddeunyddiau i Gynghorwyr Gwynedd